# DISGRIFIAD SWYDDOGAETH

## CYNGHORYDD Y FWRDEISTREF SIROL S. TRASK

Mae'r Disgrifiad Swyddogaeth yma'n berthnasol i'ch swyddogaeth yn:

- Aelod Etholedig
- Aelod o'r Cyngor
- Aelod o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
- Aelod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol
- Aelod o Grŵp Llywio'r CDLl Diwygiedig

**EICH SWYDDOGAETH YN AELOD ETHOLEDIG**

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I'r Etholwyr

**Diben a Gweithgaredd y Swyddogaeth:**

**Cynrychioli a bod yn gefn i'ch etholwyr a'ch cymunedau:**

- Cynrychioli buddiannau eich Adran Etholiadol.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn eich Adran Etholiadol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, gwasanaethau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau/mudiadau lleol, gan fynd ar ôl achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu ag Aelodau Gweithredol, Aelodau eraill o'r Cyngor, Swyddogion y Cyngor a sefydliadau partner i sicrhau bod anghenion y cymunedau lleol yn cael eu hadnabod, eu deall a'u diwallu.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol.
- Ymateb i unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd (yn ôl yr angen) yng nghyfarfodydd y Cyngor.

**Dod i benderfyniadau, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor:**

- Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, a bwrw golwg ar gyflawniad y Cyngor.
- Parchu egwyddorion democratiaeth a chyfrifoldeb ar y cyd ynglŷn â dod i benderfyniadau.
- Hyrwyddo trefniadau effeithiol ac effeithlon parthed darparu gwasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bod yn effro i'r Polisi Diogelu Corfforaethol a chynorthwyo'r Cyngor i gydymffurfio ag ef.

  Dolen gyswllt i'r polisi:

  http://inform/cy/policiesandprocedures/otherpolicies/corporatesafeguardingpolicy.pdf

**Cynrychioli'r Adain Weithredol**

- Cynrychioli'r Adain Weithredol ar y canlynol:
  - Bwrdd Rhianta Corfforaethol

**<u>Eich swyddogaeth yn Aelod o Grŵp Llywio'r CDLl Diwygiedig</u>**

**<u>Yn atebol:</u>**

- I'r Cyngor llawn

**<u>Cyfrifoldebau</u>**

- Arwain a chynorthwyo â gwaith paratoi a llunio'r CDLl Diwygiedig.
- Sicrhau bod modd i Aelodau a Swyddogion sy'n ymwneud â'r CDLl gynnal trafodaethau ac ymgynghoriadau ynglŷn â chynnwys y Cynllun a chyfrannu at ddatblygu a gwella'r sylfaen dystiolaeth.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol, a gweithdrefnol i gyfrannu at swyddogaethau'r Grŵp Llywio mewn modd teg a chytbwys.
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion o flaen y Grŵp Llywio.
- Chwarae rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio.
- Dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, yn unol â chylch gorchwyl y Grŵp Llywio, sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad, a gofynion y polisïau perthnasol.
- Deall swyddogaethau priodol Aelodau, Swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu yn rhan o faes cyfrifoldeb y Grŵp Llywio.
- Unrhyw ddyletswyddau cysylltiedig eraill wedi'u pennu gan Gadeirydd Grŵp Llywio'r CDLl Diwygiedig.

## EICH SWYDDOGAETH YN ARWEINYDD GRŴP Y BLAID GEIDWADOL

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I Grŵp y Blaid Geidwadol

**Cyfrifoldebau:**

- Darparu arweinyddiaeth ar gyfer Grŵp y Blaid Geidwadol.
- Bod yn llefarydd ar ran Grŵp y Blaid Geidwadol rydych chi'n Arweinydd arno.
- Bod yn llais cynrychioliadol ar gyfer Grŵp y Blaid Geidwadol, er enghraifft a lle bo'n berthnasol, wrth ymdrin â sefydliadau allanol megis Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo sefydlogrwydd ariannol, busnes ac economaidd tymor hir y Cyngor.
- Annog y safonau gorau o onestrwydd a llywodraethu corfforaethol.
- Cynrychioli buddiannau gorau'r Cyngor ar yr holl sefydliadau rydych chi wedi'ch enwebu iddyn nhw gan y Cyngor.
- Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu, fel sy'n cael eu hystyried yn briodol, ac yn y modd yma, galluogi cyfranogiad llawn a gweithredol o fewn swyddogaethau'r Cyngor.

## EICH SWYDDOGAETH YN AELOD O BWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn

**Cyfrifoldebau:**

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Adolygu'r ddarpariaeth o staff, swyddfeydd/cyfleusterau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn rheolaidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol.
- Penodi Is-bwyllgorau a Chadeiryddion Is-bwyllgorau i ymgymryd â swyddogaethau sy'n cael eu dirprwyo gan y Pwyllgor.
- Trafod adroddiadau sydd wedi'u paratoi gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau yr Awdurdod.
- Sicrhau gall Aelodau fanteisio ar lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel sy'n cael eu disgrifio yn y Strategaeth Datblygu Aelodau a Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

- Sicrhau bod y gyllideb ar gyfer Datblygu Aelodau yn ddigonol.
- Sicrhau gall Aelodau fanteisio ar gynllunio datblygu personol ac adolygiadau datblygu personol blynyddol.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol, a gweithdrefnol i gyfrannu at swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chytbwys.
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn cyngor proffesiynol ac arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion o flaen y Pwyllgor.
- Cymryd rhan effeithiol mewn cyfarfodydd o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.
- Dod i benderfyniadau gwybodus a chytbwys yn ôl yr wybodaeth briodol, yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor, sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad, a gofynion y polisïau perthnasol.
- Deall swyddogaethau priodol Aelodau, Swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

## EICH SWYDDOGAETH YN ARWEINYDD GRŴP Y BLAID GEIDWADOL

**Yn atebol:**

- I'r Cyngor llawn
- I Grŵp y Gynghrair

**Cyfrifoldebau:**

- Darparu arweinyddiaeth ar gyfer Grŵp y Gynghrair
- Bod yn llefarydd ar ran Grŵp y Gynghrair rydych chi'n Arweinydd arno.
- Bod yn llais cynrychioliadol ar gyfer Grŵp y Gynghrair, er enghraifft a lle bo'n berthnasol, wrth ymdrin â sefydliadau allanol megis Llywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo sefydlogrwydd ariannol, busnes ac economaidd tymor hir y Cyngor.
- Annog y safonau gorau o onestrwydd a llywodraethu corfforaethol.
- Cynrychioli buddiannau gorau'r Cyngor ar yr holl sefydliadau rydych chi wedi'ch enwebu iddyn nhw gan y Cyngor.
- Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu, fel sy'n cael eu hystyried yn briodol, ac yn y modd yma, galluogi cyfranogiad llawn a gweithredol o fewn swyddogaethau'r Cyngor.

## DATBLYGU AELODAU

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, a chynnal y safonau gorau posibl o ran ymddygiad a moeseg yn y ffordd byddwch chi'n ymgymryd â'ch dyletswyddau.
- Cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau datblygu Aelodau ar gyfer Rheoli Datblygu, gan alluogi cyfranogiad llawn a gweithredol o fewn y broses Rheoli Datblygu.

- Dealltwriaeth gadarn o'r Cod Arfer Dda mewn perthynas â'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, a pharchu'r darpariaethau sydd iddyn nhw.
- Ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl ac anghenion hyfforddiant ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'ch swyddogaeth briodol a fydd yn cael sylw yn rhan o'ch Adolygiad Datblygiad Personol parhaus.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu er mwyn gwella'ch dealltwriaeth o'ch swyddogaeth ar Bwyllgorau/cyrff allanol ac ati, byddwch chi wedi'ch penodi iddyn nhw.
- Manteisio ar gyfleoedd datblygu ar gyfer Aelodau/Cynghorwyr.

**GWERTHOEDD**

- Ymrwymo wrth werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
    - Bod yn agored a thryloyw
    - Bod yn onest a dilwgr
    - Bod yn oddefgar a pharchus
    - Bod yn anwahaniaethol a theg
    - Derbyn gwahaniaeth mewn diwylliant
    - Cynaliadwyedd

Llofnod.............S Trask.............................

Enw................S Trask.............................

Dyddiad...........................................